**YSGOL BRYNREFAIL**

**Swydd ddisgrifiad**

**Swydd : ATHRO/ATHRAWES GWYDDONIAETH (HYFFORDDI FEL ATHRO/ATHRAWES UWCHRADD)**

**Rheolwr Cyswllt : Pennaeth yr Adran/nau Perthnasol**

**Swydd: Athro / Athrawes**
**Graddfa Cyflog Athrawon Di-Gymhwyster**

**Athro/Athrawes Gwyddoniaeth (Hyfforddi fel Athro Uwchradd)**

Dyma gyfle i hyfforddi fel athro uwchradd drwy'r Brifysgol Agored TAR WEDI EI ARIANNU'N LLAWN (rhaglen 2 flynedd)

Oriau: Llawn Amser

Cyflog: Statws Athro Digymhwyster Pwynt 1-6 (£21,812- £34,495 y flwyddyn)

Yn eisiau erbyn: Medi 2025 (cytundeb dros dro hyd at 31/08/2027)

Mae Ysgol Brynrefail yn Ysgol Uwchradd 11-18 oed ym mhentref Llanrug yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd, mae 771 o ddysgwyr yn yr ysgol gan gynnwys 136 o fyfyrwyr Chweched Dosbarth. Mae'r disgyblion yn dilyn rhan fwyaf o'u pynciau yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ac o ganlyniad mae bron pob disgybl yn rhugl ddwyieithog. Mae awyrgylch hapus a chartrefol yma, gyda pherthynas iach rhwng y disgyblion a'r staff.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfle arbennig i unigolyn trwy raglen TAR (2 flynedd) a ariennir gan Lywodraeth Cymru, drwy bartneriaeth Y Brifysgol Agored. Rydym eisoes wedi cynnig lleoliadau i unigolion ar y cynllun yma. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn addysgu Saesneg drwy gyfrwng y Saesneg ond mewn amgylchedd Gymraeg a Chymreig i ddisgyblion Ysgol Brynrefail a bydd angen gwneud cais i'r Brifysgol Agored gydag ardystiad gan Ysgol Brynrefail.

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at raddedigion sydd unai'n gweithio ar hyn a bryd ac eisiau newid gyrfa, neu sydd â phrofiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd gyda phlant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys cynorthwywyr addysgu a hyfforddwyr dysgu sy'n dymuno symud ymlaen yn eu gyrfa. Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd yn eu blwyddyn olaf yn y Brifysgol hefyd.

Rydym yn edrych am unigolion sydd yn angerddol am gefnogi gweledigaeth yr ysgol a thrwy hynny, wneud gwahaniaeth mawr yn addysg ac ym mywydau ein disgyblion. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cefnogaeth lawn gan yr ysgol a gan athrawon profiadol iawn wrth iddynt ddatblygu i fod yn addysgwyr llwyddiannus.

Mae'r llwybr TAR yn raglen 2 flynedd. Rhaid i ymgeiswyr fodloni'r gofynion mynediad TAR arferol ac mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar gais. Yn ogystal â hynny, bydd angen i chi ddangos y canlynol:

- Dawn, gallu a gwydnwch i fodloni'r canlyniadau SAC gofynnol erbyn diwedd eich rhaglen TAR
- Rhinweddau personol a deallusol i ddod yn ymarferydd rhagorol
- Gallwch ddarllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir mewn Cymraeg/Saesneg llafar ac ysgrifenedig
- Sgiliau swyddogaethol personol mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol sy'n berthnasol mewn cyd-destun addysgu a dysgu proffesiynol.

Oherwydd natur y swydd byddwn yn gofyn am ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus. Mae'n ofynnol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg cyn cychwyn gweithio yn y swydd hon. Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd.

**DISGRIFIAD O'R RHAGLEN**

Gofynion mynediad ar gyfer llwybr TAR i addysgu a ariennir yn llawn gan y Brifysgol Agored

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddal y canlynol, o leiaf:

- Safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd
- Safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch mewn naill ai Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Gyntaf
- Gradd anrhydedd lawn yn y DU (neu gyfwerth). Rhaid i chi feddu ar radd sydd ag o leiaf 50% o berthnasedd i'r pwnc os ydych am addysgu i ddod yn athro ysgol uwchradd (dysgwyr 12-16 oed). I'r ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais pwnc Cymraeg, nid oes rhaid i'ch gradd fod yn y maes hwn o reidrwydd os gallwch ddangos eich bod yn defnyddio'r iaith yn rhugl, oherwydd efallai y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi yn dibynnu ar ddyfnder eich gwybodaeth.

Mae angen i ymgeiswyr fod ar gael i ymrwymo i gontract llawn amser (nid yn ystod y tymor yn unig) tan ddiwedd y rhaglen ym mis Gorffennaf 2027 a bydd yn ofynnol iddynt fod wedi'u lleoli yn yr ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mrs Angharad Davies, Rheolwr Busnes a Chyllid ar sg@brynrefail.ysgoliongywnedd.cymru. Croesawir ceisiadau am sgyrsiau anffurfiol gyda'r Pennaeth Mewn Gofal.

DYDDIAD CAU: Hanner Dydd, Dydd Gwener 28ain o Chwefror, 2025

(Bwriedir cynnal y cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 03/03/25)

**Datganiad Diogelu**

Mae'r awdurdod hwn wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl y bydd pob un o'i staff a'i wirfoddolwr yn rhannu'r ymrwymiad hwn. Bydd y Cyngor yn gofyn am ddadleniad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chadarnhad o gofrestriad gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus cyn y gallent gychwyn yn y swydd yma.